# Pan chwythwyd YR AMSERAU i'r Eil o Man

## P. H. JONES ac anturiaethau papur newydd

AR WAHÂN i anawsterau eraill wedi ymadawiad John Jones, y cyhoeddwr gwreiddiol, yn 1845 nid oedd argraffu *Yr Amserau* heb ei broblemau ychwaith: cwynai darllenwyr oherwydd gwallau cysodwyr di-Gymraeg Whitty ac Ellis ('Seison pendew, ystyfnig') ac fe fu anawsterau 'efo plant Hengist, y gwasg-greffwyr', chwedl Hiraethog.

Drwy ddiffyg gofal wrth weithio'r 'agerbeiriant' byddent yn difrodi rhai dwsinau o gopïau o bob rhifyn.

Nid oedd yn bosibl hawlio pris y stamp yn ôl oddi wrth yr awdurdodau, ac felly 'roedd yn rhaid danfon y copïau amherffaith hyn i'r derbynwyr. (O degwch i Whitty, dylid nodi iddo gwyno i Bwyllgor Dethol 1851 ar Stampiau bod ansawdd gwael papur argraffu yn arwain i wastraff a chollediom fel hyn.)

Tywyllodd rhagolygon *Yr Amserau* yn ystod 1847. Bu cwymp sylweddol yn ei werthiant o 2500 i oddeutu 2000, lleihaodd nifer yr hysbysebion i gyfartaledd o tua deg y rhifyn erbyn diwedd y flwyddyn.

Gellir priodoli hyn i raddau helaeth i'r dirwasgiad a effeithiodd yn ddifrifol ar Lerpwl o ddiwedd 1846 ymlaen. Erbyn 1850 'roedd llawer o Gymry Lerpwl wedi gadael y ddinas; bu lleihad sylweddol, er enghraifft, yn aelodaeth y Tabernacl, capel Hiraethog, o 324 yn 1846 i 249 erbyn diwedd 1850.

Ymfudodd nifer o Gymry Lerpwl i'r Unol Daleithiau yn ystod y blynyddoedd hyn, gan gynnwys o leiaf ddau aelod o bwyllgor *Yr Amserau*, W.B. Jones a Robert Littler.

Erbyn canol Mehefin 1847 cwynai'r *Amserau* bod y colledion dros £600 ac, er bod etholiad cyffredinol ar fin digwydd, fe fu'n rhaid oedi cyhoeddi'r papur rhwng dechrau Gorffennaf a chanol Awst er mwyn cael cyfle i geisio hel y dyledion a newid i drefn newydd o orfodi derbynwyr i dalu ymlaen llaw.

* * *

RHYDD Hiraethog argraff gamarweiniol dros ben, yn yr atgofion a gyfansoddwyd ganddo tua 1874, o'r modd yr 'achubwyd' y papur wrth iddo gyhoeddi 'Llythyrau 'Rhen Ffarmwr' ynddo.

Yn anffodus, dilynwyd y fersiwn hwn gan T.M. Jones yn *Llenyddiaeth fy Ngwlad* yn hytrach na'r fersiwn mwy dibynadwy a gyhoeddwyd yn rhifyn cyntaf *Baner ac Amserau Cymru* ddechrau Hydref 1859, a'r manylion ychwanegol a geir yn rhifyn olaf 1847 o'r *Amserau*.

Yn fersiwn 1874 'does dim sôn am Gymry gwladgarol Lerpwl ac, fel y dangosodd T. Eirug Davies ac E. Morgan Humphreys yn y 1930au, cywasgwyd cronoleg yr hanes yn enbyd nes cyfleu mai yn 1844-45 ac nid ar ddiwedd 1846 y dechreuwyd cyhoeddi'r 'Llythyrau'.

Mae'r cwymp a fu yng nghylchrediad *Yr Amserau* yn ystod 1847 hefyd yn ein caniatáu i amau ai cywir gosodiad Hiraethog i 'nifer y derbynwyr gynyddu fesur y degau bob wythnos' fel canlyniad i gyhoeddi'r 'Llythyrau'.

* * *

DAETH gwaredigaeth o gyfeiriad annisgwyl dros ben. Cyhoeddwyd crynodeb o adroddiad y comisiynwyr ar addysg yng Nghymru yn y *Daily News* ar 24 Tachwedd 1847 ac fe'i hadargraffwyd yn y *Liverpool Journal* o fewn tridiau.

Cynddeiriogwyd Cymry Lerpwl gan Y Llyfrau Gleision a threfnwyd cyfarfod protest yn y Portico ar 14 Rhagfyr. 'Roedd hyd yn oed y 'duwiolfrydig a hanner Ceidwadol Henry Rees' (chwedl Eleazer Roberts) yn barod i eilio cynnig a brotestiai yn erbyn 'ymosodiadau haerllug ar foesau a chrefydd Cymru'.

Prif ganlyniad y cyfarfod oedd cyfres o gynigion, a luniwyd gan weinidogion Cymraeg Lerpwl a'r gororau, i'r perwyl y dylid troi'r *Amserau*'n wythnosolyn er mwyn amddiffyn Cymru a thaenu gwybodaeth fuddiol. Byddai angen rhagor o arian wrth gefn ar gyfer hyn ac felly fe benderfynwyd ffurfio cwmni newydd gyda chyfalaf o £500 mewn 200 o gyfranddaliadau o £2.10.0 yr un.

Gwerthwyd llawer o'r cyfranddaliadau cyn diwedd y flwyddyn, yn ôl tystiolaeth Hiraethog yn rhifyn olaf 1847, a throsglwyddwyd *Yr Amserau* i'r cwmni newydd ddiwedd Ionawr neu ddechrau Chwefror 1848.

Ehangwyd maint y papur cyn diwedd Ionawr drwy newid ei fformat o bedair tudalen fawr i wyth a oedd braidd yn llai ond yna, wrth i frwdfrydedd y cyfarfod ballu, fe ymddangosai'r dasg o gyhoeddi'r *Amserau*'n wythnosol mor anobeithiol ag erioed.

Yn ôl John Lloyd, rai blynyddoedd yn ddiweddarach, 'roedd colled o chwe phunt ar bob rhifyn a gyhoeddwyd a baich o hen ddyledion 'o rai canoedd o bunau'.

* * *

MEWN SYLW ar ymholiad darllenydd ganol Mehefin 1848 cawn y cyfeiriad cyntaf at y posibilrwydd o gyhoeddi'r *Amserau* yn ynys Manaw er mwyn osgoi'r trethi a oedd yn ei dagu.

Oherwydd eu statws cyfansoddiadol arbennig, nid oedd y deddfau a drethai'r wasg yng ngweddill gwledydd Prydain mewn grym yn Ynysoedd y Sianel a Manaw. Enillodd cyhoeddwyr yn yr ynysoedd hyn yr hawl, yn ystod ail hanner y 1830au, i ddanfon newyddiaduron a chylchgronau a gyhoeddwyd yno yn rhad trwy'r post i dderbynwyr ym Mhrydain.

Ar ôl i'r fraint gael ei chadarnhau yn Neddf Post 1840, fe ddechreuodd ambell i gyhoeddwr prydeinig fanteisio ar ddeddfwriaeth a fwriadwyd ar gyfer papurau lleol yr ynysoedd, gan gyhoeddi papurau dirwestol a radicalaidd yn Douglas ac yn Jersey.

Felly, yng Ngorffennaf 1845, cawn yr *Amserau* yn nodi cyhoeddi'r *National Reformer* ym Manaw gan y Siartydd Bronterre O'Brien.

Mae'n debyg mai'r Cymro cyntaf i fanteisio ar lacrwydd y gyfraith oedd y Parch Huw Jones, Llangollen. Ar ôl i'r awdurdodau ladd ei bapur ceiniog *Yr Ysbiwr* trwy ei orfodi i'w stampio - wrth i'r pris godi i dair ceiniog cwympodd y cylchrediad o 2300 i 600 - aeth ati i gyhoeddi wythnosolyn ceiniog newydd, *Cronicl Cymru*, yn Jersey o Ragfyr 1847 ymlaen.

Ni allai cyhoeddwyr yr *Amserau* beidio â gwybod am y cynllun gan iddo gael ei hysbysebu ynddo ganol Tachwedd.

Nid oedd penderfyniad y cwmni, cyn diwedd Mehefin, i drosglwyddo cyhoeddi'r *Amserau* i Ynys Manaw yn fenter fyrbwyll nac yn un anghyfreithlon ychwaith: yn wir, mynnai John Lloyd ei fod wedi ymgynghori â'r awdurdodau cyn gweithredu'r cynllun.

Pe gellid cyhoeddi'r *Amserau*'n rhatach, gellid gostwng ei bris ac felly ehangu'r gwerthiant i raddau a fyddai'n talu costau ychwanegol cyhoeddi'n wythnosol. Er mwyn hyrwyddo'r fenter, gwerthwyd y papur i John Lloyd am gan punt: ni fedrai dalu'r cyfan ar unwaith, ond 'roedd parodrwydd Hiraethog i barhau fel golygydd yn ddigon i warantu trosglwyddo'r *Amserau* iddo ar goel.

*(I barhau)*

## RHODDION HAEL Y TALWYR DA

MAWR werthfawrogir y rhoddion hyn i Gymdeithas Bob Owen gan yr aelodau, a'r talwyr da. Diolch am bob dimai.

£25: Mrs E.A. Jones, Aberystwyth.

£10: J.R. Williams, Llanrug.

£9: A.Rh. Wiliam, Y Rhyl.

£8: W. Aaron, Caernarfon.

£7: N. Owen, Mayfield; M.L. Jones, Caerdydd; D. Thomas, Llanwnda; W.M. Griffith, Morfa Bychan; D.J. Brown, Castle Donnington.

£5: E.N. Williams, Porthaethwy; D. Orwig, Bethesda; I. Roberts, Penrhosgarnedd.

£4: J.Ll.L. Williams, Caergybi; T.H. Godfrey, Croft on Tees.

£3: D.R. Ap Thomas, Llansadwrn; W.H. Price, Llanelli; M.G. Owen, Cricieth; C.M. Jones, Caergybi; B. Jones, Y Groeslon; G. Evans, Pencarreg; E.R. Jones, Marian Glas.

£2: R.F. Williams, Waunfawr; H.G. Williams, Chwilog; G. Llewelyn, Porthaethwy; T.B. Jones, Caernarfon; W.E. Roberts, Caernarfon; M.H. Greenacombe, South Croydon; E.Evans, Cheltenham; I.B. Rees, Llanllechid; G. Blytheman, Llandwrog; W.J. Jones, Caerdydd; J.C. Madoc-Jones, Dinbych; S.J. Jones, Farmers; M.K. Jones, Aberdaron; M. Jones, Y Bala; G.T. Jones, Pentreuchaf; W. Jones, Llanystumdwy; J.L. Madden, Aberystwyth; W.B.L. Evans, Penrhyn-coch; S.G. Davies, Glyn Ceiriog; G.L. Davies, Caerdydd; D.Morgan, Bangor; R. Williams, Llanrug; Ll. Williams, Caerdydd; M. Thomas, Porthaethwy; D.C. Griffiths, Trefor; J. Roberts, Llandudno; J. Williams, Llanbedr D.C; M. Owen, Llundain; I. G. Evans, Deiniolen; W.H. Morris, Llanberis; E. Evans, Manod; M. Williams, Rhydymain; G.J. Williams, Rhuthun; D.H. Rees, Felinfoel; M. James, Llangeitho; Rh.G. Jones, Pentyrch; H. ap Robert, Penarth; E. Roberts, Penrhyndeudraeth; A. Rowlands, Llangefni; G.E. Roberts, Clynnog Fawr; R.T. Jones, Llanarmon-yn-Iâl; D.B. James, Llandre; Di-enw, Bangor; H.E. Jones, Rhoshirwaun; T. Jones, Pwllheli; J.W. Jones, Moelfre; K.O. Pritchard, Gilfach Goch; J.E.M. George, Caerdydd;E.M. Williams, Bangor; B. Kerfoot, Abergele; G. E. Evans, Southampton; A. L. Miles, Waunfawr; G.G. Evans, Y Drenewydd;G.E. Rees, Caerdydd; M. Hughes, Pontfadog; H. Morris, Llangian; G. Williams, Wrecsam; G.L. Carr, Bangor; A.E. Owen, Chwilog.

£1: S. Owen, Bontnewydd; W.M. Davies, Abergele; E.C. Watkins, Porthmadog; B.M. Kerfoot, Abergele.